

CYFARFOD O'R CYNGOR – 20 MEDI, 2017

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 12(2) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, mae Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, J.Williams, E.S.Stephens, D.Grehan, E.Webster, H.Fychan, G.R.Davies ac M.O.Weaver wedi diwygio'r Rhybudd o Gynnig fel yr amlinellir yn eitem 12(2) o agenda'r Cyngor:-

Yn y pwynt bwled cyntaf, newid "ar Gymdeithas Llywodraeth Leol" i "ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol" a newid "y Llywodraeth" i "Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth".

Ychwanegu pwynt bwled arall yn dilyn yr ail bwynt bwled – "Ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am ddileu'r cap o 1% ar gyflogau i weithwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig".

Os cytuna'r Cyngor â hyn, bydd y rhybudd o gynnig fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer 2018 sydd wedi ei gyflwyno gan yr undebau – UNSAIN, GMB ac Unite – ar ran gweithwyr ysgolion a'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn galw am ddod â'r cap cyflog yn y sector cyhoeddus i ben ar unwaith i sicrhau nad yw tâl y Cydgyngor Cenedlaethol yn cael gostwng ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu ac yn cefnogi'r adolygiad ar y cyd o raddfa dâl y Cydgyngor Cenedlaethol i unioni'r aflonyddwch sydd wedi cael ei achosi gan setliadau tâl sy'n cynyddu wrth fynd i lawr y raddfa.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r cyllid llawn i Gymru er mwyn ariannu codiad cyflog boddhaol i weithwyr y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi terfyn ar doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Galw yn syth ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno achos ger bron Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth i roi'r cyllid llawn i hawliad y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi gwybod i ni am ei chamau yn hyn o beth.
- Ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am gael y cyllid llawn ar gyfer codiad cyflog boddhaol a'r adolygiad o'r raddfa dâl.

- Ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am ddileu'r cap o 1% ar gyflogau i weithwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad tâl a'r adolygiad o'r raddfa dâl.